# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant:

## Y dull dyneiddiol

| Dull a damcaniaethwyr | Y prif agweddau ar y dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
|---|---|---|
| **Dyneiddiol:**<br><br>Rogers, Maslow<br><br>**Geiriau allweddol:**<br><br>- Biolegol<br>- Ffisiolegol<br>- Cyflawni<br>- Parch<br>- Hunansylweddoli | • Cynigiodd Carl Rogers ddull dyneiddiol o ymdrin â seicoleg gan ei fod yn chwilio am ddamcaniaeth newydd a oedd yn cyfateb i'w arsylwadau ymchwil a'i gredoau. Er mai ef oedd y cyntaf i ddefnyddio'r dull hwn, Maslow a fathodd y term 'seicoleg ddyneiddiol'.<br>• Mae damcaniaeth Maslow yn seiliedig ar yr angen i fodau dynol ganfod ymdeimlad o gyflawni o'r enw hunansylweddoli, lle mae rhywun yn cyflawni hyd at lefel uchaf ei allu.<br>• Yr hierarchaeth anghenion yw damcaniaeth enwocaf Maslow; mae'n credu bod gan bob bod dynol yr un anghenion a bod rhaid bodloni'r rhain mewn trefn benodol.<br>• Mae'n cyflwyno'r anghenion hyn ar ffurf pyramid, gan roi anghenion corfforol mwyaf sylfaenol yr unigolyn ar y gwaelod a hunansylweddoli ar y brig. Mae'n rhaid cwblhau pob cam ar y pyramid cyn symud ymlaen i'r lefel uwch nesaf o anghenion. | Er mwyn i blentyn fod yn llwyddiannus yn yr ysgol, mae angen iddo gael ei fwydo'n dda, cael cwsg da, teimlo'n ddiogel yn y cartref a bod â hunanhyder. Mae hierarchaeth anghenion Maslow yn helpu ymarferwyr i ddeall sut i ddiwallu anghenion penodol plant. Mae'n rhaid diwallu anghenion biolegol a ffisiolegol yn y lle cyntaf. Os bydd plant yn llwgu neu wedi blino, byddant yn cael trafferth canolbwyntio. Felly, mae'n bwysig diwallu'r anghenion hyn cyn eu hannog i chwarae, gwrando ar stori neu gwblhau gwaith.<br><br>Ar ôl diwallu'r anghenion sylfaenol, gall plant ddod yn fwy ymwybodol o bryder gwahanu neu ofni rhoi cynnig ar weithgareddau newydd sy'n ymwneud â'r cam diogelwch a diogeledd. Gellir diwallu'r angen i berthyn mewn lleoliadau oherwydd bydd plant yn gallu gwneud ffrindiau neu greu ymlyniadau â pherson allweddol.<br><br>Mae'r pedwerydd cam - parch - yn ymwneud ag anghenion plant i feithrin annibyniaeth, hunan-barch neu gyflawniadau. Mae'r plant yn elwa ar gael eu canmol am eu gwaith neu am allu cyflawni rhywbeth ar eu pen eu hunain, fel clymu careiau eu hesgidiau neu fwyta eu byrbryd. Ystyr hunansylweddoli yw gwireddu potensial personol. Mae hyn yn datblygu gydag amser fel ymdeimlad o fodlonrwydd â nhw eu hunain a'r sefyllfa.<br><br>Mae damcaniaeth Maslow yn cwmpasu anghenion datblygiad pob plentyn - datblygiad corfforol, datblygiad emosiynol, datblygiad cymdeithasol, a datblygiad gwybyddol ac iaith. |